## Tasg 2

# Dewch i chwarae!

Yn ei e-bost, mae Rhys yn dweud:

| |
|---|
| Mae'n dweud ar y we bod clwb pêl-droed mewn sorb yn dechrau yn y ganolfan hamdden nos Wener nesaf. Wyt ti am ddod gyda fi? Bydd e'n llawer iawn o hwyl. |

Rydych chi'n gweithio yn y ganolfan hamdden ble bydd y gamp newydd yn dechrau.

1. Gwnewch daflenni i roi gwybod i bobl fod sesiynau pêl-droed mewn sorb yn mynd i gael eu cynnal yn y ganolfan hamdden.
   Eglurwch:
- beth yw'r gamp
- pryd bydd y sesiynau'n dechrau (dyddiad ac amser – rhaid i chi feddwl am hyn)
- pa mor aml byddan nhw'n digwydd
- ble yn union y bydd y sesiynau'n cael eu cynnal
- pam mae'r gamp yn dda i chi.

Trïwch berswadio pobl i ddod.

2. Paratowch set o gyfarwyddiadau ynglŷn â sut i chwarae'r gamp.

Bydd rhaid i chi feddwl am faterion iechyd a diogelwch hefyd, e.e.
- Beth ddylai pobl ei wisgo?
- Pa fath o esgidiau ddylen nhw eu gwisgo?
- Beth ddylen nhw wneud / beidio gwneud pan fydd rhywun yn rholio ar y llawr?
- Beth am reolau am daro yn erbyn rhywun o'r cefn?

Unrhyw reolau eraill?